Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-(L)/LG/0103/17

Mark Reckless AC
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

21 Chwefror 2017

Annwyl Mark

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Ionawr, yn gofyn imi amlinellu'r camau y byddaf yn eu cymered o ran deall difrifoldeb y problemau sy'n gysylltiedig ag ansawdd yr aer yng Nghymru, trwy weithgareddau monitro, gwella ansawdd yr aer drwy reoleiddio a gorfodi a monitro'r peryglon amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwael.

Mae monitro ansawdd yr aer a'r risgiau amgylcheddol cysylltiedig, yn digwydd ar nifer o lefelau. Caiff monitro cenedlaethol ei reoli yn unol â gofynion Cyfarwyddeb yr UE gan Asiantaeth yr Amgylchedd drwy'r rhwydwaith monitro cenedlaethol o dan gontract y DU. Mae Awdurdodau Lleol yn monitro yn unol â'u dyletswyddau rheoli ansawdd yr aer yn lleol (LAQM) o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Caiff y monitro ei gomisiynu hefyd gan awdurdodau'r priffyrdd ac mae'n ofynnol trwy reoleiddwyr amgylcheddol ger rhai gweithfeydd diwydiannol penodol.

Mae fy Adran yn monitro gwefan Fforwm Ansawdd yr Aer yng Nghymru http://www.welshairquality.co.uk/index.php?t=&n_action=&lg=w, sy'n darparu ystod eang o ddata monitro ansawdd yr aer i'r cyhoedd. Mae data ar ansawdd yr aer ledled y DU ar gael ar wefan Defra ar https://uk-air.defra.gov.uk.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae rheoleiddio a gorfodi yn digwydd drwy sawl sianel, gan gynnwys LAQM, pob un ohonynt o fewn fy mhortffolio i.

Daeth ein hymgynghoriad ar ansawdd aer lleol a rheoli sŵn yng Nghymru i ben ar 6 Rhagfyr a chafwyd 50 o ymatebion. Rwyf ar hyn o bryd yn ystyried argymhellion yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd. Byddaf yn cyhoeddi ymatebion yr ymgynghoriad yn llawn ac yn cyflwyno datganiad i Aelodau'r cynulliad ar sut yr wyf yn bwriadu newid y broses LAQM yng Nghymru, cyn diwedd Mawrth 2017. Roedd yr ymatebion i'r cynigion penodol o fewn y ddogfen ymgynghori yn ffafriol ar y cyfan, yn enwedig o ran yr angen i gael mwy o gydweithio a'r angen i leihau llygredd yn yr aer ar draws y boblogaeth gyfan yn ogystal â chanolbwyntio ar ardaloedd sydd yn methu â chadw at nodau ansawdd yr aer. Bydd fy Adran yn creu canllaw diwygiedig ar bolisïau i Awdurdodau Lleol, ac yna dempled gwell ar gyfer cofnodi blynyddol. Rwyf hefyd yn bwriadu ymyrryd, ble y bo angen, i wella sut y mae Awdurdodau Lleol yn cydymffurfio ag amserlenni cofnodi a chynllunio camau gweithredu.

Mae fy swyddogion yn cydweithio ym maes Iechyd y Cyhoedd i ddatblygu ymgyrch addysgol ar ansawdd yr aer i weithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd ac i gynhyrchu canllawiau cenedlaethol ar gyfer Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd mewn Byrddau Iechyd Lleol, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd o fewn Awdurdodau Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd y canllaw hwn yn annog cydweithio i sicrhau y cyflawnir yr LAQM.

Mae fy swyddogion yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill i edrych ar y polisïau a'r canllawiau cynllunio cenedlaethol o ran ansawdd yr aer a sŵn. Bydd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad diweddar yn bwydo i mewn i'r broses hon.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdodau Lleol yn rheoli'r allyriadau i'r aer o brosesau diwydiannol drwy drefn drwyddedu amgylcheddol ac mae fy swyddogion yn cydweithio'n agos â rheoleiddwyr a chwmnïau ble y bo'n briodol. Rydym wedi sefydlu cynllun gweithredu yn y tymor byr ar gyfer deunydd gronynnol yn ardal gweithfeydd dur Port Talbot, ac rydym yn ddiweddar wedi comisiynu astudiaethau ar ddeunydd gronynnol ym Mhort Talbot a nicel yng Nghymoedd Abertawe.

Ar safon yr aer yn gyffredinol, ym mis Tachwedd, daeth yr Uchel Lys i'r casgliad y dylid diddymu cynllun ansawdd yr aer Llywodraeth y DU 2015, a gynhyrchwyd er mwyn bodloni gofynion Cyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd UE. Daeth y dyfarniad i'r casgliad nad oedd y cynllun y bodloni gofynion cyfreithiol y DU i wella ansawdd yr aer yn y cyfnod byrraf posibl. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd y rhagolygon yn seiliedig ar fodelu yn gywir, gan ei wneud yn annhebygol y byddai modd cydymffurfio â therfynau ansawdd yr aer.

Mae'n ofynnol felly i Lywodraeth y DU ddrafftio cynllun newydd ar gyfer ansawdd yr aer er mwyn gallu cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb. Bydd ymgynghoriad ar y cynllun newydd erbyn 24 Ebrill 2017, ac mae'n rhaid ei sefydlu erbyn 31 Gorffennaf 2017.

Mae goblygiadau hyn o ran cynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â llygredd nitrogen deuocsid yng Nghymru yn dibynnu ar ragolygon newydd y DU ar gyfer cydymffurfio a ddarparwyd gan Defra. Bydd y rhain yn cynnwys amcangyfrifon newydd a mwy cywir ar gyfer allyriadau traffig a gwell datrysiadau amser (sef rhoi rhagolygon nid yn unig ar gyfer y blynyddoedd 2020, 2025 a 2030 ond ar gyfer blynyddoedd eraill hefyd) o fewn asesiadau ansawdd aer. Bydd angen i gynllun newydd drafft y DU ddangos sut y mae modd cydymffurfio â'r terfynau cyn gynted â phosib, gan gynnwys yn y pedair ardal nad ydynt yn cydymffurfio yng Nghymru.

Yn ein Papur Gwyn diweddar ar y newid o'r UE i berthynas newydd ag Ewrop, mae'n amlwg bod angen inni fod yn wyliadwrus a sicrhau nad ydym yn colli'r diogelwch a'r safonau oedd o fudd i'n dinasyddion a'r gymdeithas gyfan. Rydym ar hyn o bryd yn bodloni ein hymrwymiadau o ran monitro a modelu ansawdd yr aer yn genedlaethol trwy gontractau ledled y DU sy'n cael eu hariannu yn ganolog o gyllideb tystiolaeth o ansawdd yr aer yn y DU sy'n cael ei rheoli gan Defra. Mae contractau eraill tebyg o fewn y DU wedi eu sefydlu er mwyn rhoi cymorth technegol i'r LAQM, er gwaethaf y gofynion gwahanol ar gyfer yr LAQM ym mhob gweinyddiaeth o fewn y DU. Er ei bod o bosibl yn haws i sicrhau bod trefniadau ansawdd yr aer cenedlaethol a lleol yn ategu ei gilydd wedi inni adael yr UE, byddem yn bryderus o weld Llywodraeth y DU yn lleihau'r lefel gyffredinol o fonitro, modelu a chymorth technegol sy'n cael ei darparu ar hyn o bryd drwy gontractau ledled y DU.

Mae rhai dulliau pwysig wrth gwrs o wella ansawdd yr aer sydd heb eu datganoli, er enghraifft dulliau cyllidebol o ran cerbydau diesel, ac rydym am i Lywodraeth y DU chwarae ei rhan i wella ansawdd yr aer yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor wedi mynegi diddordeb yn y gorffennol yn achos llys Gorsaf Bŵer Aberddawan ac ysgrifennais yn ddiweddar at holl Aelodau'r Cynulliad ar y mater hwn. Rwy'n gobeithio i hyn egluro'r sefyllfa bresennol o ran allyriadau ocsidau nitrogen Aberddawan, a'r camau sy'n cael eu cymeryd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i alluogi'r dyfarniad.

Cofion

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs